



Mercher 8 Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd yn fanteisiol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant RCT a Merthyr a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.



Roeddwn yn hapus i weld eich bod yn amlwg wedi cychwyn yn dda drwy ennyn **ymgyfraniad pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, drwy Hwb Ymgysylltu Cymuned Cwm Taf a'ch gwaith ar y prosiect *Deall ein Cymunedau*. Buaswn yn eich annog i adeiladu ar hyn i wneud yn siŵr eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgysylltu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae'n amlwg eich bod wedi cyflwyno a dehongli ystod eang o ddata yn eich asesiad drafft, ac fel y dywedais pan fynychais eich cyfarfod BGC yn ddiweddar, gwnaethoch argraff dda gan eich bod wedi meddwl am asedau eich ardal fel rhan greiddiol o'r broses. Tra'ch bod wedi cynnwys peth data **ar dueddiadau'r hirdymor** credaf fod yna botensial i chi roi mwy o ffocws ar yr hirdymor wrth i'ch gwaith symud yn ei flaen, ac archwilio pa rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o agored i gael eu niweidio gan y tueddiadau hirdymor a nodwyd gennych.

Ar **integreiddio** roedd yn braf gweld tra bo'ch asesiad wedi ei strwythuro o amgylch y pedair elfen llesiant, eich bod wedi eu cysylltu â'i gilydd, ac wedi archwilio'r cysylltiadau hyn drwy eich ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae hon yn sylfaen dda i adeiladu arni a chredaf y gallech ddatblygu hyn ymhellach drwy gynyddu eich cysylltiadau â'r nodau llesiant wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Bydd hyn yn hynod o bwysig wrth i chi feddwl am rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau wrth **facsimieiddio eich cyfraniad** i'r nodau.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle buaswn yn eich annog i dalu mwy o sylw i'r hyn a ddywedir wrthyf gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd – chi o hyd yw'r unig FCG cyfun, sydd i'w gymeradwyo a theimlaf bod eich penderfyniad i adael i wahanol bartneriaid ddrafftio'r pedair dogfen frifio wedi dangos pa mor llwyddiannus yw eich cydweithio, Yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodwedion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi roi cyngor i chi ar sut y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cwm Taf

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar *Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant Lleol drafft Cwm Taf* yn Chwefror 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Mawrth 2017 [Dogfen Gryno]
- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Atodiad 1 – Llesiant Diwylliannol
- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Atodiad 2 – Llesiant Economaidd
- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Atodiad 3 – Llesiant Amgylcheddol
- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Atodiad 4 – Llesiant Cymdeithasol
- Aseiad Llesiant Drafft Cwm Taf Atodiad 5 – Adroddiad gweithdy NSF & PWC
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 1^{af} Chwefror

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 - Ile mae hynny'n bosibl a'r broses barhaus o ddatblygu eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau ar gynhyrchiad a methodoleg ac ar y dadansoddiad o'r aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting



Tra'n bod yn deall bod yr Aseidiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r asesiad Llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio Llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau Llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod Llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau Llesiant cenedlaethol. Deallwn y bydd y BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu Llesiant; yn achos Cwm Taf, y pedair thema: Llesiant Amgylcheddol; Economaidd, Diwylliannol a Chymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth ni o sut mae canfyddiadau'r asesiad yn effeithio ar nodau Llesiant cenedlaethol yn ogystal â'r rhai lleol.

Mae'n beth cadarnhaol bod y Ddogfen Gryno'n ailadrodd gofynion y BGC i ddefnyddio a chyfrannu at y nodau Llesiant cenedlaethol. Gellid gwella'r ddogfen drwy gael mwy o drafodaeth drwyddi draw ar sut mae'r canfyddiadau, yr heriau a'r penawdau'n cyfrannu at, neu'n effeithio ar y nodau Llesiant cenedlaethol. Gallai'r adrannau ym mhob Dogfen Frifffio sy'n ystyried sut mae pob thema'n cydberthyn, fod yn lle addas i ddisgrifio'r berthynas.

Yn ogystal â bod yn fwy eglur am hyn, gellid cael adlewyrchiad cryfach o gyfraniad i gydlyniad a chydarddoldeb yn y dogfennau briffio a pheth adlewyrchiad o sut mae'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang' yn berthnasol i Gwm Taf.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i aseidiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn,

Mae'n amlwg o'r Dogfennau Briffio bod ystod eang o ddata ar lefel y DU, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi cael ei ddefnyddio. Ar gyfer Llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, mae'r data, ansoddol a meintiol, yn rhoi darlun cyfoethog o wahanol gymunedau a chymunedau sydd o ddiddordeb yng Nghwm Taf. Mae'r sylwebaeth a'r dehongli, ar y cyfan, yn dda iawn (gweler adran 6), yn arbennig yn nhermau disgrifio'r amrywiaeth o amodau ar draws cymunedau Cwm Taf. Byddai'r dadansoddiad wedi bod ar ei



ennill petai'r persbectif Cwm Taf gyfan hyn wedi ei ddehongli'n gyson ar gyfer y pedair ardal gymunedol ar draws cymunedau Cwm Taf: Rhondda; Cynon, Taf Elai a Merthyr Tudful. Byddai deall y gwahanol faterion, anghydraddoldebau ac asedau ym *mhob un* o'r ardaloedd hyn yn rhoi darlun cliriach o heriau neilltuol, a blaenoriaethau ar gyfer y BGC.

Gellid gwella'r asesiad ymhellach drwy gynnwys data ar ynni critigol, dŵr a seilwaith trafndiaeth yn ogystal ag asedau eraill cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol a restrir ym mhob dogfen. Mae'r seilwaith hwn o berthnasedd allweddol i'r BGC, darpariaeth gwasanaethau a llesiant cymunedol.

4. Cynnwys data – sut mae pobl angen gwasanaethau cyhoeddus ac yn eu defnyddio

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn wedi eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig ac unigolion.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o weledigaeth iddynt o brofiadau pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ailweithredu ar y mewnwelediadau hyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflwyno gwasanaethau.

Mae'n braf gweld rhesymeg glir ar gyfer yr asesiad a sut y bwriedir i hynny drwytho gwasanaethau cyhoeddus, llunio polisi, comisiynu darpariaeth gwasanaethau a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau. Mae hefyd yn braf gweld y gwaith yn anelu at ddylanwadu ar "brosesau, gwasanaethau ac arian". Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd hyn yn dylanwadu ar waith pob un o bartneriaid y BGC drwy'r broses cynllunio llesiant.

Mae'r ymgysylltiad drwy Hwb Ymgysylltu Cymuned Cwm Taf a *Deall ein Cymunedau* wedi darparu llwybr clir ar gyfer rhoi adborth i'r BGC ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn gadarnhaol i weld pa mor effeithiol mae'r Asesiad Poblogaeth a'r Asesiad Llesiant wedi trwytho ei gilydd ac wedi adnabod anghenion arbennig.

Mae'r Atodiadau'n amlinellu'n glir ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a'r modd y gellir eu diwallu – mae'r adrannau ar heriau strategol ac asedau lleol wedi eu cyfleu yn dda. Mae yna botensial i'r Ddogfen Gryno grynhoi'n fwy effeithiol y negeseuon o'r Atodiadau. Er enghraifft, mae'r rhestr o gwestiynau i'r gwasanaethau cyhoeddus ar dudalen 24 yn set o



heriau dwys i'r BGC o fewn trafodaeth ar Asedau. Gellir gwella'r Ddogfen Gryno drwy gael strwythur clir i gyfleu cyfoeth o ddadansoddiad a gwybodaeth o'r Atodiadau ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus.

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o gydbwysu data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae lefel y dehongli a'r dadansoddi ym mhob un o'r Dogfennau Briffio'n gymeradwy. Mae'r grynodedb ar gyfer pob thema'n gytbwys, gyda iaith glir ac eglurhad clir o benderfynyddion llesiant. Mae'r Dogfennau Briffio'n rhoi sylwebaeth gref ar oblygiadau'r data i lesiant gan dynnu ar ddata'r DU, Cymru a ffynonellau lleol a chanlyniadau'r ymgynghoriad i beintio darlun cynnil o lesiant ar draws yr ardal. Er gwaetha'r sylwadau a wneir ym mhwynt 3 (ar y pedair ardal gymunedol), mae yna ddigon o ddata lleol i ddisgrifio llesiant o bersbectifau cymunedol ac unigol ar draws Cwm Taf. Mae darparu adrannau ar 'benawdau', 'heriau', 'asedau' a'r 'perygl o fethu cynnal neu wella llesiant' yn rhoi negeseuon clir ar faterion pwysig i'r BGC. Rhoddir sylwadau penodol ar bob Dogfen Friffio isod:

Llesiant Diwylliannol: Mae'r ddogfen hon wedi ei threfnu'n dda gyda dehongliad a sylwebaeth wedi eu seilio mewn data ar lefel cymunedol. Mae'n rhoi darlun lleol cyfoethog o ddiwylliant ar draws Cwm Taf. Mae'n adlewyrchu barn y gymuned yn dda ac yn rhoi mewnwelediad da o ddeinameg cymunedol, gan ddarparu esiamplau o wahanol fannau yn yr ardal 'y gellir adeiladu arnynt'. Mae'n adnabod 'yr hyn sydd angen i ni wneud a gwybod'. Mae'r ddogfen wedi ei chyfeirio'n dda ac wedi gwau ystadegau yn naratif grymus. Gellid ei gwella drwy gael adran (fel yn y dogfennau eraill) ar gysylltiadau â themâu eraill, a dylai gynnwys mwy o gyfeiriadau at y nodau llesiant cenedlaethol.

Llesiant economaidd: Mae'r holl sylwadau uchod ar y Ddogfen Briffio Diwylliannol yn berthnasol i'r ddogfen hon hefyd. O gadw mewn golwg yr ystod o ddata, mae'r ddogfen hon wedi ei fframio'n dda gyda digon o dystiolaeth. Mae ychwanegu'r adran 'y peryglon o fethu cynnal a gwella llesiant' yng nghyd-destun heriau Economaidd i Gwm Taf o bwys arbennig. Mae hwn yn ddull da o gyfleu pwysigrwydd materion



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

arbennig i'r BGC. Mae'r ddogfen hefyd yn cydnabod yr angen am well ymgysylltiad â'r sector preifat, mwy o ddadansoddiad o effaith posibl Bargen y Ddinas-ranbarth a thwristiaeth. Mae'n rhoi dadansoddiad da o gysylltiadau a themâu eraill. Gellid ei gwella drwy ddarparu data ar natur a lleoliad cyflogaeth ar draws Cwm Taf a pheth dadansoddiad o'i gydnerthedd.

Llesiant Amgylcheddol: Eto mae'r adran hon yn debyg i'r lleill o ran ansawdd. Yn ychwanegol mae'n rhoi 'gweledigaeth' neu senario o lesiant amgylcheddol. Mae wedi ei ysgrifennu'n dda, ond byddai mwy o eglurder am ei darddiad a beth yw ei bwrpas yn ddefnyddiol. Mae'r cysylltiad cryf rhwng pobl a'r amgylchedd o bwys arbennig a'r potensial o weld y gymuned yn cael mynediad i dir sy'n eiddo i'r cyhoedd. Gellid ei wella drwy well dealltwriaeth o'r gwahanol oblygiadau i lesiant amgylcheddol ar draws y pedair ardal gymunedol.

Llesiant Cymdeithasol: Mae gan y ddogfen hon ffocws cryf iawn ar iechyd gyda pheth gwybodaeth ar y boblogaeth sy'n heneiddio a thai. Mae'r dystiolaeth ar iechyd wedi ei gyfeirio'n dda ac mae'n defnyddio data lleol yn dda ond gallai fod yn gliriach ar faterion a heriau allweddol. Mewn llawer man, mae maint y dystiolaeth yn sefyll yn ffordd y penawdau. Gallai'r ddogfen fod ar ei hennill o gael ei golygu i roi gwell eglurder ar strwythur a rhifo gan fod y gwahanol adrannau'n anodd eu dilyn; mae hyn yn berthnasol hefyd i'r adrannau ar asedau a heriau. Mae'n amlwg mai dim ond rhan o'r darlun o lesiant cymdeithasol yw hwn a byddai ar ei ennill pe rhoddir mwy o bwyslais ar rôl y trydydd sector, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol o fewn Cwm Taf.

Mae'r dogfennau hyn ynghyd â mewnbwn rhanddeiliaid yn Atodiad 5 yn rhoi sylfaen gadarn i'r BGC gychwyn blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant a phenderfynu pa asesiad pellach sydd ei angen.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal â'r priodolddau cadarnhaol a'r asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau, asedau a diffygion o fewn yr ardal.

Mae'n amlwg bod yr ymagwedd a fabwysiadwyd tuag at y dogfennau briffio a drafodwyd yn gynt yn rhoi arwydd clir o'r heriau allweddol i lesiant yng Nghwm Taf. Mae strwythur yr



asesiad, sy'n cynnwys asedau, heriau a pheryglon yn rhoi lefel da o ddehongli a dadansoddi y gall y BGC adeiladu arno.

Mae'n beth cadarnhaol bod ymgynghoriad rhanddeiliad ar yr asesiad wedi cychwyn archwilio'r tensiynau a'r cyfaddawdau rhwng y pedair thema. Dylai hyn gael ei ddatblygu ymhellach wrth i gynllunio llesiant barhau.

Ymddengys bod yr ymagwedd seiliedig ar asedau wedi bod yn gadarnhaol iawn - nid yn unig yn nhermau tynnu sylw at heriau, a chydabod graddfa'r diffygion, ond hefyd yn nhermau ffocysu i'r un graddau ar yr hyn sy'n dda am yr ardal. Mae'r potensial o fedru defnyddio tir sy'n eiddo i'r cyhoedd yn enghraifft dda o'r modd y mae'r ymagwedd hon yn cyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio gyda'r sector cyhoeddus yn yr ardal (gan osgoi ffocysu'n unig ar broblemau).

Fel y crybwyllwyd eisoes, byddai'r Ddogfen Gryno, tra'n rhestru'r heriau allweddol, ar ei hennill o gael strwythur cliriach i gyfleu ansawdd y dadansoddi, ehangder y broses ymgysylltu a goblygiadau'r heriau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghwm Taf.

7. Ymgysylltu, ymglyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymglyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymglyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n braf gweld ystod eang o ymgysylltiad rhanddeiliaid drwy gyfrwng *Deall ein Cymunedau* a'r ystod o ddulliau eraill sydd wedi cael eu defnyddio i gasglu data meintiol ac ansoddol i drwytho'r asesiad. Mae'r cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd y Brifysgol, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful a Chyngor Rhondda Cynon Taf, a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gynhyrchu'r pedair Dogfen Frifffio yn enghraifft dda o gyrff cyhoeddus yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Hefyd mae'r cysylltiad rhwng Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful a'r Asesiad Llesiant o bwys arbennig. Bydd yn bwysig bod y CDLI yn ystyried pob agwedd ar yr asesiad a'i gynhyrchiad, yn ogystal â chanlyniadau'r Ddogfen Frifffio Llesiant Economaidd.

Mae ymgysylltiad ehangach rhanddeiliaid yn amlwg wedi dwyn ystod eang o gyrff ac unigolion at ei gilydd i gyfrannu. Mae hefyd yn gadarnhaol ei bod yn glir i rhanddeiliaid y bydd



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

yr ymgysylltiad yn parhau drwy'r cyfnod ymgynghori a bod yr asesiad yn broses barhaus. Mae'r llyfrgell wybodaeth ar-lein hefyd yn adnodd ardderchog sy'n cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio gan y sefydliad ac unigolion.

Mae'n braf gweld bod yr asesiad wedi adnabod yr angen i'r sector preifat ymgyfrannu mwy yng nghynllunio llesiant yn yr ardal. Mae hyn yn amlwg yn bwysig i'r thema *Economaidd* ond yr un mor bwysig oherwydd ei mewnwelediad i agweddau eraill ar lesiant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gyd-destun Llesiant Diwylliannol ac mewn perthynas â'r Ddinas-ranbarth a'i effaith ar, er enghraifft, batrymau cymudo a chanol trefi ar draws Cwm Taf. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gellid mynd i'r afael â hyn mewn gwaith yn y dyfodol ar yr asesiad a chynllunio llesiant.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, i ddehongli beth a olyga hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae'n braf gweld y gwaith a ddisgrifiwyd yn Atodiad 5 ac yn y Dogfennau Cryno ar integreiddio ym mhob un o'r pedair thema llesiant. Mae'n amlwg bod gwaith wedi ei wneud i gychwyn deall y berthynas rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghwm Taf a bydd gennym ddiddordeb i weld sut y bydd gwaith yn parhau i drwytho'r broses cynllunio llesiant.

Hefyd mae'r ymrwymiad i integreiddio'r Asesiad Poblogaeth a'r Asesiad Llesiant drwy'r bartneriaeth Cwm Taf o bwys arbennig. Byddai mwy o eglurder ar y modd y mae hyn wedi trwytho'r Asesiad Llesiant a dealltwriaeth o'i oblygiadau i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cwm Taf yn ddefnyddiol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig a'r *hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y



rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad a chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae yna rai enghreifftiau yn yr asesiad lle mae data hirdymor wedi cael ei ddefnyddio o gwmpas llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio a thai a newid hinsawdd. Byddai dealltwriaeth bellach o'r modd y gallai'r materion hirdymor hyn effeithio ar y pedair ardal gymunedol a chymunedau unigol yn gwella'r dogfennau ymhellach, h.y. pa gymunedau sy'n arbennig o agored i gael eu niweidio yn yr hirdymor gan y materion hyn?

Yn gyffredinol mae angen rhoi llawer mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau'r dyfodol yng Nghwm Taf yn gyffredinol ac o dan y pedair thema. Mae hyn yn rhywbeth y buaswn yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad gael ei ddatblygu ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml i fynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai gwneud crynodeb o'r heriau yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor ar gyfer pob thema gan nodi ble mae goblygiadau posibl arwyddocaol ar gyfer yr ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau'r hirdymor helpu'r BGC i flaenoriaethu heriau hollbwysig lle mae angen gweithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yng Nghwm Taf yn yr asesiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dadansoddiad manylach o faterion rhanbarthol trawsffiniol allweddol sy'n effeithio ar Gwm Taf wedi bod yn fuddiol, i drwytho eich cynllunio llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad cliriach o 'rôl' yr ardal o fewn y rhanbarth.



Tra bo adran ar y Ddinas-ranbarth wedi ei chynnwys yn y Ddogfen Friffio Llesiant Economaidd, nid yw'n glir beth fydd goblygiadau'r prosiect mawr, hirdymor hwn ar *bob* agwedd ar lesiant cymunedau ar draws yr ardal. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y caiff ddylanwad ar bob un o'r pedair thema. Dylai pob adran o'r asesiad gynnwys dylanwad posibl y prosiect, gan y bydd yn debygol o gael effeithiau niferus ar draws gwahanol rannau o Gwm Taf.

Gellid darparu mwy o fewnwelediad ar arwyddocâd patrymau cymudo i welliant, materion hollbwysig i seilwaith trafndiaeth a rheoli tirwedd a natur y gydberthynas ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill megis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. I'r perwyl hwn, bydd hefyd yn bwysig i FGC Cwm Taf ystyried casgliadau asesiadau lleol cymdogol o lesiant wrth i gynhyrchu cynllun ddatblygu.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae'n gadarnhaol iawn gweld yr adrannau "Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n helpu mewn perthynas â'r pennawd hwn?" a "Beth arall sydd angen i ni ei wybod?" Dylai'r ymagwedd hon gael ei defnyddio hefyd yn y Ddogfen Friffio Llesiant Cymdeithasol. Mae'r adroddiad gan NSF a PWC yn Atodiad 5 hefyd yn rhoi dadansoddiad manwl o fylchau data. Mae'r rhestrau hyn sydd ar wahân hefyd yn rhoi dealltwriaeth dda o fylchau data penodol, a gellid eu gwella drwy gyfleu pa rai o'r rhain sy'n hanfodol ar gyfer datblygu blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn sy'n dod a pha rai y gellir mynd i'r afael â hwynt dros gyfnod hwy.

Byddai adran yn crynhoi'r uchod yn gwella'r Ddogfen Gryno. Bydd hyn yn bwysig i ddeall a oes yna unrhyw batrymau mewn anghenion data o'r pedair thema, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith cyfredol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn sy'n dod, gan helpu partneriaid BGC i adeiladu ymchwil a rheolaeth data i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru o anghenion y BGC.



12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimieiddio*'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae yna rai elfennau yn eich ymagwedd sy'n dangos sut mae'r pum dull o weithio wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses datblygu asesiad:

- *Ymgysylltu ac Ymgysylltiad* – drwy gyfrwng Hwb Ymgysylltu Cymunedol Cwm Taf a'r prosiect Deall ein Cymunedau
- *Cydweithio* – rhwng y ddau Gyngor, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu yn y broses
- *Integreiddio* - drwy archwiliad rhanddeiliaid o'r gydberthynas rhwng gwahanol themâu
- *Hirdymor* – defnydd o ddata sydd ar gael yn hawdd ar hinsawdd, tai a phoblogaeth
- *Atal* – ymyriad blynyddoedd cynnar a drafodwyd yn y Ddogfen Frifio Llesiant Cymdeithasol

Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yma i ddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei ddefnyddio fel dull o weithio yn yr asesiad hwn. Mae'n ddefnyddiol i gael cyfeiriad at yr egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhob Dogfen Frifio, ond nid yw'n eglur sut mae hyn yn berthnasol i'r dadansoddiad neu'r holl broses cynhyrchu asesiad.

Byddai'r asesiad ar ei ennill petai'n fwy clir am y modd y mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC tuag at y gwaith hwn, a sut fydd yr egwyddor yn ffurfio'r broses datblygu llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae'r asesiad yn glir iawn ar ddiben a chynulleidfa – trwytho darpariaeth gwasanaethau'r sector cyhoeddus a helpu datblygiad cynllun llesiant. Mae yna ddatganiad clir bod y gwaith



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

hwn ar y gweill ac mai'r bwriad yw ei ddefnyddio fel dull/catalydd ar gyfer y BGC, a'i fod i gael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y misoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, mae llai o eglurder am y broses o ddatblygu'r asesiad yn Gynllun, a sut fydd yr heriau a amlygir yn y Ddogfen Gryno'n cael eu harchwilio fel rhan o gynhyrchu'r Cynllun. Gellid cryfhau'r ddogfen hon drwy fod yn fwy eglur am y broses hon, yr amserlen a sut fedr rhanddeiliaid a'r cyhoedd ymgysylltu yn y misoedd sy'n dod.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgysylltu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod lefel dehongli a dadansoddi llesiant ar draws yr ardal a'r cydweithio a'r ymgysylltiad yn y broses yn arbennig o gadarnhaol a dylid eu cymeradwyo. Mae'r gwaith yn rhoi sylfaen gadarn i'r BGC gychwyn blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant a phenderfynu pa asesiad pellach sydd ei angen.

Fodd bynnag, credwn y byddai mynd i'r afael â'r materion canlynol yn gwella'r asesiad wrth iddo esblygu:

Dogfen Gryno - dylai'r ddogfen hon roi crynodeb cliriach a mwy dealladwy o'r broses ymgysylltu, y canfyddiadau allweddol o'r pedair thema; heriau allweddol; goblygiadau posibl i'r gwasanaethau cyhoeddus (a'r her i'r BGC): bylchau data a'r broses o gynllunio'r cynllun. Mae llawer o waith positif wedi ei wneud ar yr asesiad, a adlewyrchir yn y Papurau Briffio; mae angen i'r ddogfen hon gofnodi a chyfleu'r gwaith da hwn.

Dehongli data - mae angen mwy o eglurhad am y modd y mae'r materion a nodwyd o dan bob thema'n effeithio'n lleol ar y pedair ardal gymunedol.

Nodau llesiant - dealltwriaeth gliriach o'r berthynas rhwng themâu, heriau a chyfleoedd a nodwyd ar y saith nod llesiant cenedlaethol.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Dinas-ranbarth - byddai'n ddefnyddiol i gael mwy o ddadansoddiad o effeithiau posibl y prosiect pwysig hwn ar Gwm Taf a'i gymunedau.

Cyd-destun rhanbarthol - byddai mwy o ddadansoddiad o le Cwm Taf yn yr ardal a'r gydberthynas â'r ardaloedd a chymunedau cyfagos, a'u heffeithiau ar lesiant, wedi cryfhau'r ddogfen hon.

Tueddiadau'r dyfodol - rhoi mwy o sylw i effaith posibl hirdymor ar lesiant yng Nghwm Taf yn gyffredinol ac ar y pedair ardal gymunedol.

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad, tra gellid mynd i'r afael â rhai ohonynt wrth i'r asesiad esblygu a chael ei gadw fel dogfen 'fyw'.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn trwytho gwaith parhaus y BGC fel y caiff yr elfennau hyn eu hadlewyrchu'n fwy grymus wrth i'r BGC symud rhagddo.